# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc, ac Addysg

Lleoliad:

**Hybrid - Ystafell Bwyllgora 1, Senedd a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 15 Ionawr 2026

Amser: 09.31 - 12.31

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/15708

# Hybrid

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Natasha Asghar AS<br>Cefin Campbell AS<br>Russell George AS<br>Vaughan Gething AS<br>Buffy Williams AS (Cadeirydd)<br>Carolyn Thomas AS |
| Tystion: | James Owen, Medr<br>Giles Cutler, Medr |
| Staff y Pwyllgor: | Naomi Stocks (Clerc)<br>Leah Whitty (Ail Glerc)<br>Sarah Bartlett (Dirprwy Glerc)<br>Jennifer Cottle (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Thomas Morris (Ymchwilydd)<br>Michael Dauncey (Ymchwilydd)<br>Sian Thomas (Ymchwilydd) |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau.

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

1.2 Nododd y Cadeirydd fod Cefin Campbell AS yn gorfod gadael y cyfarfod ar ôl eitem 2.

## 2 Craffu Blynyddol ar Medr

2.1 Bu'r Pwyllgor yn craffu ar waith Medr a'i adroddiad blynyddol.

2.2 Cytunodd Medr i ddarparu nodyn am y canlynol:

- Y wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa yng Ngholeg Cambria o ran dysgwyr heb eu lleoli.

- Rhagor o wybodaeth am y rhesymau pam bod cymaint o anghysondeb rhwng cyfran y dysgwyr sydd eisiau ymgymryd â phrentisiaeth a chyfran y dysgwyr sy'n gwneud hynny yn y pen draw.

- Gwybodaeth am faint o gyflogeion cwmni Dur Tata a gafodd gefnogaeth drwy gyllid sgiliau cyhoeddus ac a aeth ymlaen i sicrhau cyflogaeth neu symud ymlaen at lwybrau cadarnhaol eraill ar ôl cwblhau eu cyfnodau dysgu.

## 3 Papurau i'w nodi

3.1 Cafodd y papurau eu nodi.

### 3.1 Gwybodaeth gan Randdeiliaid

### 3.2 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2026-27

### 3.3 Gwybodaeth gan Randdeiliaid

3.2 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog.

3.4 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2026-27

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog Rhif 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Craffu Blynyddol ar Medr - trafod y dystiolaeth

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a glywodd yn ystod y sesiwn flaenorol.

## 6 Recriwtio a Chadw Athrawon - trafod yr adroddiad drafft

6.1 Trafododd yr Aelodau yr adroddiad drafft, a chytunwyd ar newidiadau. Byddai'r newidiadau a chymeradwyo terfynol yn cael eu cyflawni yn electronig.

## 7 Gwella ysgolion a chyrhaeddiad dysgwyr - ystyried yr ohebiaeth

7.1 Ystyriodd y Pwyllgor ddarn o ohebiaeth mewn cysylltiad â'r gwaith y mae'n ei wneud ar wella ysgolion a chyrhaeddiad dysgwyr.

## 8 Blaenraglen waith - trafodaeth ar sesiwn graffu Llywodraeth Cymru

8.1 Trafododd y Pwyllgor y meysydd yr hoffent ganolbwyntio arnynt ar gyfer y sesiynau craffu sydd ar ddod gyda Llywodraeth Cymru.